



Cylchlythyr Wythnosol Ysgol Pencae *Weekly Newsletter*

25.10.24

Annwyl Riant / Gwarcheidwaid,
Dear Parent / Guardian,

Mae'n anodd credu bod ein hanner tymor cyntaf wedi dod i ben. I ble aeth yr amser?! Mae wedi bod yn hanner tymor hynod o brysur ond mae wedi bod yn bleser yng nghwmni eich plant. Mwynhewch wythnos o seibiant a welwn ni chi yn ôl yn yr ysgol ar **ddydd Llun, Tachwedd y 4ydd**.

*It's hard to believe that our first half term has come to an end. Time really has flown by! It's been a jam-packed and enjoyable half-term in your children's company. Enjoy a week of rest and we look forward to welcome you back to school on **Monday, November 4th**.*

Diolch Mrs Hall

Wedi 14 o flynyddoedd fel goruchwylwraig amser cinio yn Ysgol Pencae, heddiw oedd diwrnod olaf Mrs Hall. Mae wedi bod yn rhan ganolog o'r ysgol - yn bwydo eich plant pob amser cinio, yn eu cyfarch gyda gwên a gofal ac yn gydweithwraig llawn hwyl a chynhesrwydd i ni'r staff. Dymunwn bob dymuniad da iddi wrth iddi gychwyn ei hymddeoliad, gan ddymuno pob iechyd, hwyl a chwerthin iddi.


Mwynhaodd gân arbennig gan ddisgyblion yr ysgol yn dymuno'n dda iddi! Byddwn yn sicr yn colli ei chwmni. Diolch Mrs Hall!

Following 14 years of working at the school, Mrs Hall our midday supervisor has retired today. She's been an integral part of the school - feeding your children every lunchtime while greeting them with a smile and she's also been a caring and enthusiastic colleague to us staff. We wish her all the best in her retirement, we will miss her company greatly!

The pupils performed a special song for her! Diolch Mrs Hall!

Llangrannog

Mae blwyddyn 6 wedi cael amser wrth eu boddau'r wythnos hon yn Llangrannog. Er gwaetha rhagolygon simsan o ran tywydd, mae'r haul wedi tywynnu ar y gweryll. Braff iawn oedd gweld bwrlwm yr holl ddisgyblion wrth iddyn nhw gymdeithasu gyda disgyblion eraill y clwstwr, dod i



adnabod swogs a staff Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf a mwynhau pob munud o'r llu o weithgareddau anhygoel sydd i'w cael yn y gweryll. Uchafbwynt amlwg i'r rhan fwyaf ohonyn nhw oedd y cwrs mwd! Be well na chropian, neidio a rhedeg trwy byllau a chwistrellu dŵr?! Mae disgyblion blinedig iawn wedi dychwelyd heddiw ar ôl wythnos i'r brenin!

Diolch anferthol i Mr Thomas, Ms Jeffcott, Mr Morgan a Miss Evans am wirfoddoli eu hamser i fod gyda nhw gydol yr wythnos.

It's been a week that will stay with our year 6 pupils for life as they spent a week at Llangrannog, the Urdd camp in Ceredigion. They had an excellent time socialising with their peers from other cluster schools, they met staff and 6th form pupils from Glantaf and they enjoyed so many activities - skiing, tobogganing, high ropes, low ropes, swimming, archery, zip wire, a walk down to the village for a morning on the beach to name but a few. Their highlight was the mud course - what's better than crawling, jumping and running through puddles of muddy water and water sprays? We had a bus full of tired children arriving back to school today!

Diolch to Mr Thomas, Ms Jeffcott, Mr Morgans and Miss Evans for volunteering their time to be with the children all week.

Parti Bw Bwgi Bw Party

Diolch o galon i'r holl wirfoddolwyr a wnaeth drefnu disgo arbennig i ddisgyblion Pencae nos Fawrth! Roedd golygfeydd dychrynlyd yn y neuadd gyda'r disgyblion yn eu gwisgoedd ffansi, caneuon calan gaeaf yn bloeddio a gemau a thatŵs di-ri i ddiddori'r disgyblion.

Heb os cafodd pawb hwyl ac mae ein diolch i'r Gymdeithas Rhieni yn fawr - diolch o galon!

Diolch to all the volunteers who arranged our special Halloween Disco on Tuesday evening! There were frightening scenes in the hall - not only the fancy dress (!) but the Halloween songs, games, and tattoos that entertained our children.

Everyone had a great night and we are so grateful to the PTA for all their work - DIOLCH!

Ymaelodi gyda'r Urdd Membership

Mae'r amser wedi dod i ail ymaelodi gyda'r Urdd. Os ydych yn dymuno bod eich plentyn yn aelod o'r Urdd er mwyn manteisio a chystadlu yng nghystadlaethau'r Urdd - yn yr Eisteddfod neu dwrnameintiau chwaraeon, yna dilynwch y ddolen isod er mwyn eu cofrestru.

The time has come to renew your child's Urdd membership. If you wish for your child to be a member of the Urdd and compete in the Urdd competitions, both Eisteddfod activities and sports tournaments, please follow the link below to register your child.

[Ymuno gyda'r Urdd](#) / [Join the Urdd](#)

Clybiau / Clubs

	Dydd Llun Monday	Dydd Mercher Wednesday	Dydd Iau Thursday	Dydd Gwener Friday
12.45 - 13.15				<u>BI3-6</u>



ysgolpencae@caerdydd.gov.uk



ysgolpencae



www.ysgolpencae.cymru



02920 563 851

				Clwb Chwaraeon Urdd Urdd Sports Club archebu lle / book a place
3.30 - 4.30	Clwb Canu (singing) Clwb Pêl-rwyd (netball)	Dancefit	Clwb Pêl-droed / Rygbi (football /	

Mwynhewch y penwythnos / *Enjoy the weekend,*

Siwan Dafydd

Mis Hydref Sialens Siarter Iaith y Teulu <i>Language Charter Family Target</i>	Mis Hydref Proc i'r Cof Diogelwch ar y We <i>Internet Safety Tip</i>	Mis Hydref Hawliau Plant <i>Children's Rights</i>
Beth am ddweud Bore Da a Nos Da yn Gymraeg adref. <i>How about saying Bore Da (good morning) and Nos Da (Good night) in the house.</i>	Dylech chi fod yn 13 mlwydd oed er mwyn defnyddio Whatsapp. <i>You should be 13 years old to use WhatsApp.</i>	Eich hawl i enw a chenedligrwydd. <i>Your right to a name and nationality.</i>

Cysylltiadau Defnyddiol / Helpful Links:

[Ffurflen Meddyginiaeth / Medicine Form](#)


[Ffurflen Gwyliau / Holiday Form](#)

[Clwb Carco](#)



[Gwaith cartref / Home Work](#)

bit.ly/gwaithcartrefPC



DYDDIADUR YR YSGOL / SCHOOL DIARY

Dyma ddyddiadau a bydd mwy o fanylion yn nes at yr amser
Here are key dates and more information will be shared nearer the time

Dyddiad / Date	Digwyddiad / Event
27.10.24	BI4: Cyngerdd PBuzz yn Coleg Brenhinol Cerdd a Drama, Caerdydd PBuzz Concert in the Royal Welsh College of Music and Drama, Cardiff
28.10.24 - 1.11.24	Hanner Tymor / Half Term
5.11.24	Stondin Gacennau BI6 ar yr iard - dewch â phres gyda chi os am gacen. Bydd yr elw yn mynd at barti diwedd cyfnod blwyddyn 6. YR6 Cake stall on the yard - bring money if you want a cake. The profit will go towards year 6' end of an era party.
11.11.24	BI6: Gwasanaeth y Cadoediad, Sgwâr Llandaf Remembrance Service, Llandaf Cenitaph
12.11.24	BI2: Sinema Chapter i wyllo Deian a Loli Chapter Cinema to watch Deian a Loli
13.11.24	BI6: Trip: Teml Hindŵaidd Grangetown a Amgueddfa Caerdydd Grangetown Hindu Temple and Cardiff Museum
14.11.24	CRhA / PTA: Sinema Pencae Cinema
15.11.24	Diwrnod Plant Mewn Angen - cyfraniad at yr elusen a bydd gwisg anffurfiol (bydd mwy o wybodaeth i ddilyn gan y Senedd) Children in Need - we will organise a collection for the charity and it will be a non-uniform day (more information will follow)
18.11.24	BI6: Gwyllo Sioe Ysgol Glantaf Watching Ysgol Glantaf's Show
18.11.24	BI6: Dyddiad Cau ceisiadau ysgol uwchradd Deadline for Secondary School Applications
22.11.24	CRHA / PTA: Stondin Gwisgoedd Nadoligaidd Ail Law (iard) Pre-loved Christmas Clothes Stall (yard)
26.11.24	BI6: Trip Crucial Crew Crucial Crew Trip
26.11.24	BI3: Trip i'r sinema, The Jungle Bunch World Tour (Cineworld) Cinema Trip, The Jungle Bunch World Tour (Cineworld)
3.12.24 5.12.24	Derbyn, Blwyddyn 1 a 2: Sioe Nadolig yr adran Dysgu Sylfaen Reception, year 1 and 2: Foundation Learning Christmas Show


ysgolpencae@caerdydd.gov.uk

ysgolpencae

www.ysgolpencae.cymru

02920 563 851

5.12.24	Stondin Gacennau BI6 ar yr iard - dewch â phres gyda chi os am gacen. Bydd yr elw yn mynd at barti diwedd cyfnod blwyddyn 6. YR6 Cake stall on the yard - bring money if you want a cake. The profit will go towards year 6' end of an era party.
6.12.24	Dros 7: ymarfer Gwasanaeth Nadolig yn y Gadeirlan Over 7's: Christmas Service Practice at the Cathedral
10.12.24	BI1 a 2: Mynd i'r Sherman: Yr Hugain Fach Goch Going to the theatre: Little Red Riding Hood
13.12.24	Ffair Nadolig / Christmas Fair Ar dir yr ysgol yn syth ar ôl ysgol / <i>On School grounds straight after school</i>
17.12.24	Derbyn a BI1: Trip i sioe Cyw Reception and Year 1: Trip to Cyw Christmas Show
18.12.24	BI3-6: Gwasanaeth Nadolig yn y Gadeirlan 9.30yb Cathedral Christmas Service - 9.30am
20.12.24	Diwrnod Olaf tymor yr Hydref / Last Day of Autumn Term 23.12.24 - 6.1.25: Gwyliau Nadolig / Christmas Holiday
6.1.25	Diwrnod HMS / Inset Day
7.1.25	Disgyblion nôl yn yr ysgol Pupils back in school
3.2.25	Diwrnod HMS / Inset Day
24.2.25 - 28.2.25	Hanner Tymor / Half Term
17.3.25 - 21.3.24	BI5: Gwersi Seiclo Cycling Lessons
9.4.25 - 11.4.25	BI4: Maes y Fron Call of the Wild
11.4.24	Diwrnod olaf Tymor y Gwanwyn / Last Day of Spring Term 14.4.25 - 25.4.25: Gwyliau Pasg / Easter Holiday
26.5.25 - 30.5.25	Hanner Tymor / Half Term
2.6.24 - 3.6.24	BI3: Pentre Ifan a Chastell Henllys Pentre Ifan and Castell Henllys



9.6.25 - 20.6.25	BI3: Gwersi Nofio <i>Swimming Lessons</i>
18.7.25	Diwrnod ola'r tymor / Last Day of term 2.30pm: Gwasanaeth Gadael Blwyddyn 6 Leavers Assembly
21.7.25	Diwrnod HMS / Inset Day



ysgolpencae@caerdydd.gov.uk



ysgolpencae



www.ysgolpencae.cymru



02920 563 851